Gweiddi

# Tasg 3

# Ble maen nhw'n byw?

Mae pobl yn byw mewn lleoedd gwahanol, fel mae'r testun ar y brif sgrin yn dweud.

1. Rhestrwch gymaint o leoedd â phosib lle mae pobl yn byw, e.e.

   yn y wlad
   yn y dref
   mewn dinas
   ac ati

   Defnyddiwch wybodaeth o'r testun hefyd.

   **Gwaith grŵp**

2. Dewiswch bedwar lle ar y rhestr.
   Ysgrifennwch y lleoedd hyn ar bedwar *post-it* – un lle ar bob *post-it*.

3. Nawr, meddyliwch am y pethau da (y manteision) a'r pethau gwael (yr anfanteision) am fyw ym mhob un o'r lleoedd hyn. Cofnodwch eich syniadau chi mewn grid fel yr un yma.

| | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| Lle 1 | | |
| Lle 2 | | |
| Lle 3 | | |
| Lle 4 | | |

4. Mewn grŵp, rhaid i chi drafod y lleoedd hyn a'u gosod nhw mewn trefn, gyda'r lle gorau i fyw ynddo yn gyntaf.

5. Cymharwch eich syniadau chi gyda syniadau grwpiau eraill.